

newyddion Cymraeg ColegauCymru #176 09 Mawrth 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. [Cysylltwch](#) da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Partneriaethau

Grŵp NPTC yn Addysgu yn India

Mae staff o Grŵp o Golegau NPTC wedi bod yn rhannu eu sgiliau a'u gwybodaeth gyda staff prifysgol yn India. Buont yn cyflwyno prosiect cyfnewid gwybodaeth ym Mhrifysgol Centurion yn Orissa fel rhan o Fenter Ymchwil Addysg India DU a ariennir gan y Cyngor Prydeinig.

[Mwy>>>](#)

Hwb i Bêl-droed merched Cymru gyda lansio academi elit

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi ymuno â champws Ystrad Mynach Coleg y Cymoedd i lansio academi pêl-droed elit merched.

Mae Jayne Ludlow, pennaeth y tîm rhyngwladol, yn hyderus y bydd pêl droed merched yn elwa o'r bartneriaeth newydd gyda Choleg y Cymoedd.

[Mwy>>>](#)

Hau, tyfu a phori treialon ar fferm coleg

Mae'r fferm weithredol ar Gampws y Drenwydd Grŵp NPTC wedi bod yn allweddol wrth dreialu pori ar gyfer y cwmni hadau amaethyddol blaenllaw: Limagrain, a bu dysgwyr Lefel 2 Amaethyddiaeth yn cyfrannu at y prosiect tymor hir yn ystod eu blwyddyn olaf ar y fferm.

[Mwy>>>](#)

Staff o Ansawdd

Lansio llyfr cyngorwr

Mae therapydd o Sir Gaerfyrddin, sydd hefyd yn ddarlithydd yng Ngholeg Sir Gâr, wedi cyhoeddi llyfr: "Skills in Counselling and Psychotherapy with Children and Young People"..

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Ailhyfforddi yn arwain at yrfa newydd i ddyn yn ei 50au

Rhoddodd Clive Green eirioed orau y nodau oedd ganddo pan adawodd yr ysgol yn ôl yn 1972, ac yn 54 oed, llwyddodd newid gyrfa gan ddod yn drydanwr, diolch i gwrs gyda Grŵp NPTC oedd y sbardun i'r cyfan.

[Mwy>>>](#)

Creu argraff ar y Gymdeithas Frenhinol

Yn gyn-fyfyriwr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor ac Ysgol Uwchradd Tywyn ym Meirionnydd, mae Jessica Roberts, newydd ddod yn un o griw dethol o ysgolheigion Cemeg yn y DU i ennill Ysgoloriaeth Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol gwerth £25,000.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau

Pencampwriaethau Coginiol Cymru

Yn y Pencampwriaethau Coginiol Cymru diweddar yng Ngholeg Llandrillo, enillodd myfyrwyr Arlwy o Gampws Crosskeys Coleg Gwent 13 o fedalau - pedair arian a naw efydd.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr Trin Gwallt i gystadlu yn rownd derfynol Cymru

Y tri chystadleuydd a ddaeth i'r brig yn rownd ranbarthol de Cymru y Gystadlaethau Sgiliau Cymru mewn trin gwallt oedd Kayley Lewis o Goleg Sir Gâr, Laura Atkins o ISA Training a Christopher Miller o Goleg y Cymoedd.

Mae 11 o'r cystadleuwyr yn mynd ymlaen at rownd derfynol Cymru, gan gynnwys tair o Coleg Sir Gâr.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau Cymru: rownd ranbarthol Trin Gwallt

Cynhaliodd Coleg Gŵyr Abertawe rownd ranbarthol de Cymru Cystadlaethau Sgiliau Cymru ar Dorri a Lliwio Uwch (trin gwallt) yn ddiweddar.

Y tri chystadleuydd uchaf oedd: Kayleigh Lewis o Goleg Sir Gâr, Laura Atkins o ISA Training a Christopher Miller o Goleg y Cymoedd. [Mwy>>>](#)

Mae 11 o'r cystadleuwyr yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd derfynol Cymru ar 11 Mawrth, gan gynnwys tair o Goleg Sir Gâr. [Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau Cymru - Dylunio Gwe a Technegydd TG Microsoft

Cynhaliodd Coleg Caerdydd a'r Fro dau rownd derfynol TG Cystadlaethau Sgiliau Cymru - Dylunio Gwe a Thechnegydd TG Microsoft ar Dydd Mawrth, 3 Mawrth.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau Cymru: coginio proffesiynol

Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd rownd ranbarthol Cystadlaethau Coginio Proffesiynol Sgiliau Cymru yng Ngholeg Menai, sy'n rhan o Grwp Llandrillo Menai.

Coleg Cambria ddaeth i'r brig, gyda Daniel James o Goleg Menai yn ail.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau Cymru: trin gwallt

Mae rownd derfynol trin gwallt Cystadlaethau Sgiliau Cymru yn cael ei gynnal yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar Fawrth 11.

Myfyrwyr yn Arwain

Myfyrwyr yn Trefnu Cynhadledd Gyrfaoedd Teithio a Thwristiaeth

Cynhaliodd fyfyrwyr Teithio a Thwristiaeth Grŵp Llandrillo Menai gynhadledd yrfaeoddd ar gyfer dros 100 o fyfyrwyr o ogledd Cymru. Roedd y gynhadledd yn cynnwys seminarau a gweithdai gan gynrychiolwyr o wahanol sefydliadau teithio a thwristiaeth a adnabyddir ledled y byd.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn "Lledu'r Gair"

Bu myfyrwyr o Coleg Merthyr Tudful yn gwirfoddoli yn yr wyl Celfyddydau a Llenyddiaeth ddiweddar, 'Lledu'r Gair', a oedd yn dathlu ac yn cyd-fynd â Diwrnod y Llyfr. Rhoddodd gyfle i fwy na 200 o blant ysgolion cynradd ac uwchradd i ymgysylltu gydag awduron enwog, cyfansoddwyr, selogion llenyddiaeth a diddanwyr plant.

[Mwy>>>](#)

Gweithdai gwyddoniaeth yn profi'n fformiwla sy'n llwyddo

Mae plant ysgol wedi cael eu cyffroi trwy gyfres o weithdai rhyngweithiol ar wyddoniaeth, diolch i fyfyrwyr bioleg Safon Uwch o Gampws Crosskeys Coleg Gwent.

Mae'r myfyrwyr wedi hyfforddi fel Llysgenhadon STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) ac

maent yn defnyddio eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i annog pobl ifanc i fwynhau pynciau STEM.

[Mwy>>>](#)

Newyddion Chwaraeon

Pob Iwc: Gemau Olympaidd Arbennig yn LA

Pan ddaw tymor yr haf i ben ym mis Gorffennaf, bydd myfyriwr Coleg Gŵyr Abertawe, Matthew Allen, yn codi pac am Los Angeles.

Mae Matthew, myfyriwr Sgiliau Byw'n Annibynnol, ar fin cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Arbennig y Byd, wedi cael ei ddewis i gynrychioli Tîm Prydain Fawr mewn nofio.

[Mwy>>>](#)

Pob Iwc: Colegau Cymru yn Nhwrnamaint Pêl-droed Roma Caput Mundi yn yr Eidal

Mae tîm pêl-droed dan 18 Colegau Cymru yn yr Eidal yr wythnos hon yn cystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-droed Roma Caput Mundi.

Bydd y tîm yn chwarae tair gêm pwll yn ystod yr wythnos yn erbyn Malta, yr Eidal ac Albania mewn ymgais i gyrraedd y rownd derfynol.

Yn eu plith mae chwaraewr Coleg y Cymoedd Joseph Evans.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau: pencampwr Kudo y DU

Yn ei ymgais gyntaf ym Mhencampwriaethau Kudo Iau y DU, daeth myfyriwr Coleg Caerdydd a'r Fro, A-Jay Harrhy, yn ail.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Myfyrwyr Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn croesawu Aelod Seneddol i'r ystafell ddosbarth

Mae myfyrwyr Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Sir Gâr wedi croesawu AS i mewn i'w hystafell ddosbarth yn ddiweddar, fel rhan o'u hastudiaethau Safon Uwch.

[Mwy>>>](#)

Dosbarth meistr gan actor teledu

Mae myfyrwyr y celfyddydau perfformio ac astudiaethau theatr Coleg Sir Gâr wedi bod yn gweithio gydag actor a chynhyrhydd teledu sydd wedi perfformio mewn rhaglenni megis Casualty, The Bill a Waterloo Road.

[Mwy>>>](#)

Dosbarth Meistr gan banydd cyngerdd rhyngwladol

Mae Iwan Llewelyn Jones, pianydd cyngerdd rhyngwladol gyda PhD mewn Perfformio, wedi bod yn rhoi myfyrwyr cerddoriaeth Grŵp o Golegau NPTC ar ben llanw gyda dosbarthiadau meistr arbennig yng Nghampws Castell-nedd.

[Mwy>>>](#)

Deintydd fforensig byd-enwog yn ymweld â myfyrwyr

Mae'r Athro David Whittaker OBE, deintydd fforensig sydd wedi gweithio ar achosion amrywiol gan gynnwys tswnami 2004 ac ymchwiliad llofruddiaethau Fred West, wedi rhoi sgwrs i fyfyrwyr Safon Uwch / BTEC STEM a myfyrwyr sesiynau tiwtorial meddygol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

[Mwy>>>](#)

Cystadleuaeth Ryng-golegol

Mae Coleg y Cymoedd wedi cynnal cystadleuaeth rhyng golegol, gan gystadlu yn erbyn dysgwyr o Goleg Gwent mewn ystod o bynciau gan gynnwys Gwallt, Harddwch, Plymio a Thrydanol.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd gyrfaol ym myd ffilm a'r cyfryngau

Mae myfyrwyr y Cyfryngau Creadigol o Goleg Gŵyr Abertawe wedi treulio diwrnod gyda gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant i ddarganfod sut brofiad ydyw i weithio ym myd ffilm ac effeithiau gweledol.

[Mwy>>>](#)
